



Datganiad Preifatrwydd (Aelodau)

Hunaniaeth a Manylion Cyswllt Rheolwr Data

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) yn gorff ymbarél o gymdeithasau tai yng Nghymru. Fel sefydliad anelwn i:

- Ddylanwadu ar bolisi'r llywodraeth
- Cefnogi a hyrwyddo gwaith ein haelodau
- Bod yn llais i'r sector

Ein manylion:

Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru
2 Ocean Way, Caerdydd, CF24 5TG
www.chcymru.org.uk
02920674810
enquiries@chcymru.org.uk

Rydym yn Elusen Gofrestredig (1128527) ac yn Rheolydd Data Cofrestredig (ZA334456).

Data a gesglir a diben prosesu

Fel sefydliad, dim ond yr wybodaeth sy'n hollol hanfodol i ni gynnal ein gwaith fel corff aelodaeth y byddwn yn ei dal, sy'n cynnwys eich hysbysu chi, ein haelodau, am:

- Y gwasanaethau a ddarparwn
- Y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a drefnwn
- Ymgynghoriadau ar bolisiau a newidiadau gwleidyddol.

Byddwn hefyd yn gofyn i chi lenwi arolygon byr am ein gwasanaethau i sicrhau y gallwn gyflenwi'r hyn rydych chi, ein haelodau, ei angen.

Felly, dim ond yr wybodaeth ddilynol y byddwn yn ei chasglu gennych:

- Enw
- Sefydliad
- E-bost
- Teitl swydd
- Ffotograffau
- Rhif ffôn
- Dewisiadau marchnata
- Meysydd diddordeb
- Barn
- Dewis iaith

Rydym yn defnyddio prosesyddion data sy'n darparu gwasanaethau i ni ac yn ein helpu i brosesu eich data. Mae gennym gontractau yn eu lle gyda'r prosesyddion hyn sy'n golygu mai dim ond ffyrdd yr ydym wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt wneud hynny y byddant yn defnyddio eich data. Ni fyddant yn



rhannu eich gwybodaeth bersonol a dim ond cyhyd ag y rhoddwn gyfarwyddyd iddynt y byddant yn ei gadw. Mae'r is-broseswyr a ddefnyddiwn yn cynnwys:

- Goldvision
- Uberfusion (gwefan a llwyfan postio CHC)
- Blue Stag (gwefan Ar y Bwrdd)
- Eventbrite
- Surveymonkey
- ReadyMag

Mae Eventbrite, ReadyMag, a SurveyMonkey wedi cofrestru a gyfer Tarian Preifatrwydd yr Unol Daleithiau a chant felly eu hystyried fel 'proseswyr data digonol'. Dim ond casglu a'i gadw ar gyfer ein defnyddiau ni'n hunain fydd y data proseswyr hyn ac ni fyddant yn defnyddio eich data. Ar ôl trosglwyddo'r data hwn i'n system CRM breifat, caiff unrhyw ddata a gedwir ar Eventbrite a Surveymonkey ei ddileu ar ôl cyfnod o hyd at 3 blynedd. Gallant gasglu eich cyfeiriad IP a gwybodaeth porwr, ar gyfer dibenion dadansoddi.

Gofynnir am ganiatâd cyn casglu unrhyw ffotograffau eu cadw ar liniadur y Dylunydd Brand a Graffeg, sydd wedi'i warchod gyda chyfrinair, ac ar lwyfan Readymag am hyd ar 5 mlynedd.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw drydydd parti ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol, a dim ond lle mae'n rhwymedigaeth gyfreithlon arnom i wneud hynny y byddwn yn rhannu gwybodaeth.

Sail cyfreithiol ar gyfer prosesu

Cadwn yr wybodaeth yma dan Erthygl 6 y Rheoliad Prosesu Data Cyffredinol (GDPR) ar gyfer prosesu gan fudd cyhoeddus a buddiannau dilys:

- Budd Cyhoeddus: Ein nodau fel eich corff masnach yw dylanwadu, cysylltu, cefnogi a hysbysu fel y gallwch chi, ein haelodau, barhau i fuddsoddi mewn cymunedau a newid bywydau.
- Budd Dilys: Mae hefyd ar gyfer budd CHC a'n haelodau i ni gysylltu â chi, fel y gallwn roi gwybodaeth i chi sy'n berthnasol, amserol ac o werth yn eich rôl.

Ar gyfer deunyddiau marchnata, byddwn yn gofyn am eich caniatâd i anfon yr wybodaeth yma ato. Gallwch ddileu caniatâd ar unrhyw amser. Rhoddir sylw i'r broses hon yn yr adran ddilynol: **Hawliau Unigol dan GDPR**.

Derbynwyr neu gategoriâu derbynwyr

Gall holl staff Cartrefi Cymunedol Cymru gael mynediad i'r gronfa ddata o wybodaeth a gadwn ar aelodau unigol. Fodd bynnag, diogelir cyfrineiriau y cyfrifiaduron a'r gliniaduron a ddefnyddir i gael



mynediad iddo ac maent wedi'u *hamgodio*. Ein polisi yw y caiff unrhyw aelod o staff y canfyddir ei fod yn camddefnyddio atal ei drin ar weithdrefnau disgyblu.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw drydydd parti, os nad ydych yn gofyn i ni yn benodol i wneud hynny.

Cyfnod cadw neu feini prawf a weithredwyd

Byddwn yn cadw'r wybodaeth sydd gennym arnoch chi cyhyd â'ch bod yn caniatáu i ni. Gallwch ddileu eich caniatâd i ni gysylltu â chi ar unrhyw amser. Gellir newid dewisiadau marchnata yn rheolaidd drwy ddolen datdanysgrifio ar ein cyfathrebiadau â chi, i'w newid fel sy'n gyfleus i chi. Byddwn hefyd yn anfon dolen bob blwyddyn i'ch galluogi i addasu unrhyw wybodaeth cyswllt a all fod wedi newid.

Cyfnod cadw neu feini prawf a weithredwyd

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a gadwn arnoch chi cyhyd â'ch bod yn caniatáu i ni wneud hynny. Gallwch ddileu eich caniatâd i ni gysylltu â chi ar unrhyw amser. **Hawliau unigol dan GDPR**

Dan GDPR, mae gan bob gwrthrych data yr hawliau dilynol:

- **Mynediad** – mae gan bob gwrthrych data hawl i ofyn am unrhyw wybodaeth a gaiff ei phrosesu gan ein sefydliad. Cysylltwch â enquiries@chcymru.org.uk gyda theitl pwnc '**Cais Mynediad Pwnc**' os gwelwch yn dda. Byddwn angen i chi roi dau ddarn o dystiolaeth yn profi pwy ydych i sicrhau ein bod yn rhoi'r wybodaeth i'r person cywir. Byddwn yn ymateb i'ch cais o fewn un mis. Ni chodir tâl am gais mynediad bwnc, ond gall ceisiadau mynych a beichus olygu y codir tâl.
- **Unioni** – mae gennych chi, fel y gwrthrych data, hawl i sicrhau y caiff unrhyw ddata anghywir a gedwir amdanoch ei diweddarau heb oedi. Cysylltwch ag enquiries@chcymru.org.uk gyda theitl pwnc 'Unioni Data' os gwelwch yn dda a byddwn yn delio gyda'ch ymholiad o fewn 10 diwrnod gwaith.
- **Dileu** - os gwnewch cais i ni ddileu eich gwybodaeth, byddwn yn wneud hynny. Cysylltwch â enquiries@chcymru.org.uk gyda'r teitl pwnc '**Dileu data**' a byddwn yn delio gyda'ch ymholiad o fewn 10 diwrnod gwaith.
- **Cyfyngu prosesu** - mae gennych hawl i gyfyngu'r hyn y defnyddiwn ddata ar ei gyfer. Os, ar unrhyw bryd, na ddymunwch mwyach dderbyn categori neilltuol o wybodaeth gennym, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda fel y gallwn gyfyngu'r hyn y cysylltwch â chi amdano. Cysylltwch â enquiries@chcymru.org.uk gyda theitl pwnc '**Cyfyngu Prosesu Data**' a byddwn yn delio gyda'ch cais o fewn 10 diwrnod gwaith.
- **Gwrthwynebiad i brosesu** - mae gennych hawl i wrthwynebu i ni brosesu eich data ar unrhyw adeg. Os nad ydych mwyach yn dymuno i ni gadw data arnoch, cysylltwch â

**Cartrefi
Cymunedol
Cymru** | **Community
Housing
Cymru**



enquiries@chcymru.org.uk os gwelwch yn dda gyda'r llinell pwnc '**Gwrthwynebiad i brosesu**' a byddwn yn delio gyda'ch ymholiad o fewn 10 diwrnod gwaith.